# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 17-08 (p4) : 12 Mehefin 2008**

## Adroddiad Terfynol Drafft am Gymorth i Bobl â Dyslecsia yng Nghymru

### Diben

Ystyried adroddiad terfynol drafft ac argymhellion y Grŵp Rapporteur ar Ddyslecsia am Gymorth i Bobl â Dyslecsia yng Nghymru.

### Cefndir

Ym mis Gorffennaf 2007, sefydlodd y Pwyllgor Menter a Dysgu grŵp rapporteur trawsbleidiol i ystyried dulliau o drin dyslecsia. Aelodau'r grŵp oedd Alun Cairns; Jeff Cuthbert; Janet Ryder a Kirsty Williams, a chynhaliwyd cyfres gyfarfodydd â'r prif gyrff ym maes dyslecsia, gweithwyr cymorth proffesiynol yn y maes a'r rheini sydd â dyslecsia, plant a'u rhieni'n benodol. Gosodwyd adroddiad dros dro am gasgliadau'r grŵp gerbron y Cynulliad ar 12 Rhagfyr 2007. Mae'r Adroddiad Terfynol Drafft am Gymorth i Bobl â Dyslecsia yng Nghymru yn cyflwyno casgliadau ac argymhellion y grŵp.

### Cam i'r Pwyllgor ei gymryd

Gofynnir i'r Pwyllgor gytuno ar yr adroddiad terfynol drafft sydd ynghlwm yn Atodiad 1.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Mehefin 2008**